# *Archwilio Lluniad Disgyrsiol Hunaniaeth Genedlaethol trwy Greu'r Cwricwlwm i Gymru Newydd*

Gan Alys Lowri Roberts, Prifysgol Caergrawnt

## CRYNODEB

Mae Cymru ynghanol ei chyfnod o ddiwygio addysgol mwyaf erioed, a hynny ar ffurf cwricwlwm newydd. Mae'r diwygio hwnnw wedi arwain at amlygiad themâu niferus o hunaniaeth a chenedl, a'r defnydd ohonynt. Mae'r erthygl hon yn defnyddio dadansoddiad disgwrs Foucauldaidd i archwilio lluniad disgyrsiol hunaniaeth genedlaethol wrth greu'r cwricwlwm newydd. Trwy leoli ac archwilio sut y caiff hunaniaeth dysgwyr ei goddrychu, mae'r papur yn trafod y potensial ar gyfer hunaniaeth a pherthyn o fewn y cwricwlwm newydd. Mae'n nodi hunaniaeth fel rhywbeth amrywiol, newidiol, gofodol a strategol, ac yn archwilio canlyniadau posibl y lluniadau disgyrsiol hyn. Mae'r canfyddiadau'n datgelu bod disgyrsiau o'r fath yn rhyngweithio â'i gilydd, ac yn gysylltiedig â'i gilydd, ond bod potensial iddynt wrthdaro a gwrth-ddweud ei gilydd hefyd. Mae'r prosiect yn nodi llawer o gymhlethdodau ac arlliwiau o ran themâu hunaniaeth a pherthyn o fewn y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith yn canfod potensial i berthyn yn ogystal â rhwystrau fel dieithrio ac allgáu. Yn olaf, mae'n gofyn am rywfaint o bwyll ynglŷn â'r syniad bod modd i bob dysgwr oresgyn y rhwystrau hyn wrth weithredu'r cwricwlwm newydd.

**Geiriau allweddol:** hunaniaeth, hunaniaeth genedlaethol, perthyn, Cymru, Foucault, cwricwlwm, dadansoddiad disgwrs Foucauldaidd.

---

*https://doi.org/10.16922/wje.25.1.3cym*

## *Cyflwyniad*

Mae Cymru yn wynebu'r newid mwyaf sylweddol yn ei pholisi addysg hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai dyma'r amser i ail-fframio, ail-ysgrifennu a chyflwyno ei chwricwlwm cenedlaethol newydd. Caiff y blynyddoedd ysgol eu hystyried yn gyfnod pwysig i bob person ifanc o ran ei hunaniaeth ac o ran llunio syniadau am yr hunan. Mae'r erthygl hon yn mynd i'r afael â chwestiwn hunaniaeth genedlaethol a'i pherthynas â'r cwricwlwm newydd sydd wedi ei greu. Wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd, dywedodd y cyn-Weinidog Addysg, Kirsty Williams, y bydd yn golygu mai *pobl Cymru* fydd yn penderfynu beth sy'n cael ei addysgu yn ysgolion *Cymru* (2020). Mae'r ail-fframio cenedlaethol presennol yn rhoi pwysigrwydd allweddol ar hunaniaethau awduron y cwricwlwm a'r rhai y mae wedi'i fwriadu ar eu cyfer. Mae'r papur hwn yn ceisio archwilio sut mae'r cwricwlwm newydd yn fframio syniadau o hunaniaeth genedlaethol a pherthyn mewn modd disgyrsiol, gan dynnu sylw at densiynau posibl yn eu hymgorfforiad. Y gobaith yw y bydd gwneud hynny'n arwain at elfen o bwyll o ran ystyried sut mae ymdrin â'r syniadau hyn a'u harchwilio'n ymarferol.

Mae dadleuon ynghylch hunaniaeth a pherthyn, ac amddiffyniad ohonynt, wedi creu ac yn parhau i greu dadleuon allweddol sy'n rhan o sgyrsiau cyfredol a sgyrsiau diweddar yn ymwneud â Brexit, tai, COVID-19, datganoli ac annibyniaeth yng Nghymru (McGrattan a Williams, 2017, t. 465). Wrth gwrs, nid yng Nghymru yn unig y gwelwyd y cyfryw gynnydd mewn teimladau cenedlaetholgar (May *et al.*, 2020), ond wedi dweud hynny, rydym yn gweld y genedl a hunaniaeth genedlaethol yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn gwleidyddiaeth fodern ac yn nhirwedd gymdeithasol Cymru (McGrattan a Williams, 2017, t. 466). Mae gan Gymru gyd-destun diddorol hefyd o ran hunaniaeth genedlaethol, fel cenedl-wladwriaeth o fewn y Deyrnas Unedig, gyda dylanwad a rheolaeth yn dod o du llywodraethau Cymru a San Steffan. Yn wir, awgrymaf y bydd y ffordd y mae Cymru'n dewis cynrychioli ei delfrydau a'i syniadau ynghylch hunaniaeth genedlaethol a pherthyn, trwy bolisi addysg ddatganoledig, yn fframio trywydd y dadleuon ehangach hyn ymhellach ymhen blynyddoedd i ddod.

Mae'n ddiddorol edrych yn ôl ar y gwaith a wnaed gan Daugherty a Jones, a fu'n ystyried, ym 1999, defnyddio daearyddiaeth yn y cwricwlwm ar gyfer datblygu ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol a chenedlaethol. Roeddent yn rhagweld, gyda pholisi addysg yn nwylo Cynulliad etholedig

Cymru, y byddai'n llai tebygol i benderfyniadau am gwricwlwm ysgolion Cymru gael eu gwneud yn Llundain (1999, t. 458). Roeddent yn llygad eu lle; ers ethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, mae penderfyniadau deddfwriaethol dros addysg, a oedd bellach wedi'i datganoli i'r Cynulliad, wedi parhau i roi mwy o ymreolaeth a chwmpas i ail-lunio ac unigoleiddio addysg yng Nghymru. Mae'r cwricwlwm newydd nawr yn edrych yn hollol wahanol i'r cwricwlwm a oedd unwaith yn cael ei rannu'n rhannol â Lloegr. Mae'r cwricwlwm newydd wedi bod yn destun canmoliaeth a phryder am ei fframwaith anghyfarwyddol ac addasadwy, lle gofynnir i ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm i gyd-fynd ag anghenion a dyheadau eu bro. Bydd ei ddull pwrpasol yn caniatáu personoli, addasu a dehongli'n lleol. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm yn rhoi rhywfaint o arweiniad, megis themâu trawsgwricwlaidd angenrheidiol. Yn y themâu trawsgwricwlaidd hyn y mae pynciau hunaniaeth a pherthyn yn codi eu pen amlaf. Yn y gorffennol, byddai pynciau hunaniaeth a dinasyddiaeth wedi cael eu cynrychioli trwy *Y Cwricwlwm Cymreig.*[1] Yn wir, mae'r ffordd y mae'r *Cwricwlwm Cymreig* wedi diwallu anghenion addysg dinasyddiaeth, yn ogystal â'i rôl yn hyrwyddo Cymreictod, wedi cael ei harchwilio yn y gorffennol gan Smith (2015;2016), a alwodd am ddull gyda gogwydd mwy beirniadol a chymdeithasol gyfiawn (2015, t. 199.) Nawr, gyda llai o gyfarwyddo ffurfiol o bosibl na'r *Cwricwlwm Cymreig*, bydd gofyn i ysgolion ymgysylltu â syniadau o hunaniaeth a dinasyddiaeth gan ddefnyddio'r themâu trawsgwricwlaidd fel arweiniad. Os dibynnir ar syniadau o'r fath am hunaniaeth cenedl, ond gyda rhywfaint o ryddid ynglŷn â'u dehongliad hefyd, rhaid rhoi sylw i'w hystyr, eu ffurfiant disgyrsiol a'r goblygiad posibl i ddysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn edrych ar adnoddau sy'n cael eu cynhyrchu mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd ac fel rhan o'r cwricwlwm newydd, a hynny er mwyn archwilio lluniad presennol a newidiol hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn lleoli hunaniaeth genedlaethol fel rhywbeth sydd wedi'i lunio'n ddisgyrsiol mewn cymdeithas ac fel elfen groestoriadol o'r hunan. Mae hefyd yn edrych ar hunaniaeth genedlaethol fel rhywbeth sydd â goblygiadau ymarferol i ymgorfforiad goddrychol y dysgwyr mewn cymdeithas, gan groestorri gyda'r ffordd y mae'r unigolion hynny'n teimlo y gallant berthyn o fewn cenedl. Pwrpas y gwaith hwn yw archwilio sut y gallai ysgolion ystyried y disgyrsiau o hunaniaeth genedlaethol uchod fel rhan o'r cwricwlwm newydd, gan daflu goleuni ar y tensiynau posibl sydd yn y disgyrsiau hynny neu rhyngddynt. Mewn cymdeithas lle mae modd i'n hunaniaethau a'n gallu o ran perthyn fframio ein goddrychedd, mae cwestiynau ynghylch sut mae'r ffurfiannau

disgyrsiol hyn yn cael eu creu a'u gwasgaru trwy bolisïau a gwleidyddiaeth ym maes addysg yn hanfodol os ydym am geisio amharu ar y gwahaniaethu y mae ganddynt y potensial i'w barhau.

*Mater hunaniaeth a pherthyn*

Mae'r erthygl hon yn dibynnu'n gryf ar ffenomenau hunaniaeth, hunaniaeth genedlaethol a pherthyn. Mae hunaniaeth a pherthyn yn dermau sy'n amwys ac yn hollbresennol, ac eto wedi bod yn anodd eu diffinio ers blynyddoedd lawer hefyd (Eaude, 2020, t. 17; Mercer, 1990, t. 43; Weedon, 2004, t. 155). Nid yw hyn wedi atal llawer o bobl, a minnau yn eu plith, rhag parhau i geisio diffinio, archwilio a defnyddio'r cysyniadau hyn. Mae awduron niferus yn cytuno, yn anad dim, bod hunaniaethau'n cael eu llunio ar sail gwahaniaethau a bod ganddynt y potensial a'r grym i rannu (Laclau, 1990, t. 33; Ott, 2003, tt. 56–57; Morley a Robins, 1989). Mae Eaude hefyd yn ein hatgoffa bod lluniad hierarchaidd o hunaniaethau yn bodoli bob amser, a bod hierarchaeth o'r fath yn aml wedi'i llunio yn oblygedig neu wedi ei hawgrymu (2020, t. 21). I mi, mae edrych ar hunaniaethau fel pethau sy'n gallu nodi gwahaniaethau a rhannu a chynnal system hierarchaidd, yn cynnig rhesymeg glir y gellir ei defnyddio i geisio ail-gysyniadu neu ail-lunio'r ffordd o feddwl am y ffenomenau uchod. Rhaid i ni fel arall fod yn fodlon â bodolaeth yr hierarchaethau a'r deuoliaethau hyn, a'u heffaith ar oddrychedd realiti byw. Bydd yr erthygl hon yn cwestiynu natur gynhenid hunaniaeth genedlaethol, neu, yn ôl Hall, yn ceisio dileu'r cysyniadau hyn fel nad yw eu hystyried yn fuddiol bellach (1996).

Agwedd gynnar ar hunaniaeth, ac un y mae'r gwaith hwn yn mynd ati i'w gwrthbrofi, yw'r lluniad hanfodol hwnnw o hunaniaeth. Ar ôl dod i'r amlwg yn nyddiau cynnar athroniaeth a chrefydd, trwy adroddiadau deuolaidd a materolaidd o hunaniaeth, mae safbwyntiau hanfodaeth yn cwmpasu syniadau sy'n crisialu natur 'wir' a 'hanfodol' pethau mewn ffordd na all ffurfiau ffisegol. Nod y gwaith hwn yw mynd ati i wrthbrofi safbwyntiau 'naturiol', sefydlog a diysgog o hunaniaeth. O ran hunaniaeth genedlaethol, mae cysyniadau hanfodaeth o hunaniaeth yn gallu esgor ar rethreg 'ni' a 'nhw', gan greu cysylltiad neu syniad o berthyn cynhenid neu naturiol i wlad. Wrth archwilio'r cysyniad o genedl, bu May *et al.* yn trafod yr awgrym o hunaniaeth genedlaethol, ac yn defnyddio termau homogenaidd ac unedig i gyfleu'r bobl hynny sy'n gallu hawlio hunaniaeth genedlaethol 'ddilys' a'r rhai y mae angen gwarchod eu buddiannau rhag bygythiadau mewnol ac allanol. Ystyrir bod gan y mwyafrif hwn yr

hawl i reoli, tra bod poblogaethau lleiafrifol yn cael eu gwthio i'r ymylon (2020, t. 1056). Gall hyn arwain at ffurfio'r 'arall' a thrin pobl ar sail wahanol, gan wahaniaethu, stereoteipio ac allgáu (Zilliacus *et al.*, 2017, t. 169; Kurzwelly *et al.*, 2020). Yn wahanol i hanfodolaeth, nid yw Foucault yn cysylltu hunaniaeth â'r hunan metaffisegol, ond yn hytrach gyda chyfuniad o ddulliau i wneud unigolion yn ddeiliaid mewn diwylliant (Foucault, 1982). I Foucault, nid sylwedd neu hanfod sefydlog yw hunaniaeth, ond ymdrech hanesyddol sy'n newid yn gyson, gan gyfleu statws 'hunanamlwg' a naturiol hunaniaeth fel rhywbeth problemus. Yn hytrach, mae Foucault yn llunio hunaniaeth fel syniad gwleidyddol sydd ei angen ar gyfer y perthnasoedd grym sy'n troi dinasyddion yn ddeiliaid. Mae modd ystyried hunaniaeth genedlaethol fel ffurfiant disgyrsiol (Foucault, 1972) sy'n didoli ac yn safoni rhagdybiaethau ideolegol o hunaniaeth, gan greu gwahaniaeth rhwng y 'norm' a'r 'arall'. Mae defnyddio syniadau Foucault o hunaniaeth a gwadu hunaniaeth fel hanfod metaffisegol yn creu gofod newydd ar gyfer archwilio a chwestiynu syniadau o hunaniaeth. Ar y pwynt hwn, gallwn ofyn cwestiynau penodol: Pa syniadau o hunaniaeth y mae'r cwricwlwm yn eu llunio, ac at ba bwrpas neu agenda? Gwasanaethu pwy mae'r lluniadau hyn o hunaniaeth? Gall fod yn berthnasol, hyd yn oed, i holi sut y gellid creu lluniadau o'r fath yn wahanol. I Foucault, dyna'n union pam y dylem ofyn cwestiynau o'r fath.

Mae'r papur hwn yn cyfeirio at ddisgwrs fel rhan o sefydliadau ac arferion sefydliadol, ac fel ffordd o drefnu, rheoleiddio a gweinyddu bywyd cymdeithasol (Willig, 2008, t. 113). Gan ddefnyddio syniad Foucault, yn yr erthygl hon, mae modd lleoli ysgolion fel sefydliadau sy'n creu a llunio disgyrsiau o hunaniaeth genedlaethol a llifoedd grym sy'n llunio ymarfer cymdeithasol ac yn cael eu dylanwadu ganddo. Gallwn edrych ar greu polisi a chwricwlwm fel ffordd o ffurfio rheoliadau ac arferion sefydliadol sydd â'r potensial i reoleiddio hunaniaethau dysgwyr. Yma, gallwn hefyd weld dysgwyr fel deiliaid i'r cwricwlwm ac, yn eu tro, fel deiliaid o'r wybodaeth a'r gwirionedd cydnabyddedig y mae'r cwricwlwm yn eu cyfleu. Mae'r ffocws disgyrsiol penodol ar hunaniaeth genedlaethol yn yr erthygl hon yn adlewyrchiad o'r pwnc sy'n cael ei archwilio a sefyllfa benodol y gwaith ymchwil presennol, h.y. Cymru, fel cenedl-wladwriaeth o fewn y Deyrnas Unedig yn mynd trwy gyfnod o newid. Fel y soniwyd uchod, mae cymhlethdod yn perthyn i hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru, gan ei bod yn wlad o fewn gwladwriaeth sofran annibynnol, sef y Deyrnas Unedig. Wrth feddwl am hunaniaeth genedlaethol a'i harwyddocâd gwleidyddol a chymdeithasol, gallwn weld sut mae gan ddisgyrsiau am hunaniaeth

genedlaethol rym dros bobl, gan alluogi neu atal y potensial ar gyfer perthyn. Mae awduron yn y gorffennol wedi ysgrifennu bod perthyn yn gysyniad sy'n gynhenid ac wedi'i gysylltu'n agos â syniadau a delfrydiaeth cenedl-wladwriaethau (Calhoun, 2003, t. 532; Brubaker, 2010). Mae ymwneud â pherthyn yn bwysig oherwydd, er bod gan unigolion genedligrwydd neu ddinasyddiaeth gyfreithiol, mae'n bosibl nad yw hynny'n arwain yn awtomatig at deimlad o berthyn (Brubaker, 2010; Geddes a Favell, 1998, Skey, 2011, 2014). Mae perthyn yn ymwneud â'r fforddiannau goddrychol y mae categoreiddio hunaniaeth genedlaethol yn eu caniatáu. Mae Yuval-Davis (2006) yn nodi perthyn fel rhywbeth sy'n ymwneud ag ymlyniad emosiynol, am deimlo eich bod chi gartref (t. 197). Mae hi'n sôn am sut mae'r teimlad hwn fel pe bai wedi datblygu'n rhywbeth naturiol, a'r unig adeg y daw'n destun trafod neu'n bwnc gwleidyddol yw pan fydd dan fygythiad mewn rhyw ffordd (Yuval-Davis, 2006, t. 197). Fel sy'n wir am hunaniaeth, mae'n ymddangos bod perthyn hefyd yn bwnc pan fydd yn destun dileu neu'n gweithio i rannu ac allgáu. At hynny, os yw perthyn yn gyfystyr â theimlo'n ddiogel ac yn gartrefol mewn lle, yna mae gwleidyddiaeth perthyn yn cynnwys prosiectau gwleidyddol penodol sydd â'r nod o lunio perthyn mewn ffyrdd penodol i gyfunoliaethau penodol sydd, ar yr un pryd, yn cael eu llunio gan y prosiectau hyn mewn ffyrdd penodol iawn (Yuval-Davis, 2006, t. 197). Nod y gwaith presennol yw pontio'r croesi rhwng y potensial i berthyn trwy edrych ar wleidyddiaeth perthyn trwy luniadau disgyrsiol o hunaniaethau cenedlaethol yn y cwricwlwm. Mae defnyddio syniadau o berthyn fel hyn yn ein helpu i gysylltu agendâu gwleidyddol lluniad disgyrsiol hunaniaeth genedlaethol trwy greu'r cwricwlwm newydd gyda'r realiti goddrychol i bobl yng Nghymru heddiw. Gan ddefnyddio pynciau hunaniaeth a pherthyn, gallwn archwilio ac ystyried y cysyniadau hyn fel pethau sy'n llai eglur nag ar yr olwg gyntaf, ac yn hytrach fel pethau sydd wedi'u creu a'u ffurfio trwy ddisgwrs, gydag effaith ar realiti goddrychol yr unigolyn.

## *Methodoleg*

Yn driw i'w enw, mae Dadansoddiad Disgwrs Foucauldaidd yn dod o syniadaeth Foucauldaidd ac ôl-strwythurol. Trwy feirniadu, mae ôl-strwythurwyr yn gallu creu problemau i wirioneddau a gwybodaeth sy'n cael eu cymryd yn ganiataol, a'u hansefydlogi. Drwy ddefnyddio methodolegau ôl-strwythurol fel cyfrwng ar gyfer ystyried, bwriad y gwaith ymchwil hwn yw ceisio amlygu, ymestyn a gwyrdroi lliaws o ddisgyrsiau

aml-haenog, sy'n gwrthdaro am hunaniaeth genedlaethol. Mae nifer o awduron wedi ceisio mapio dull damcaniaethol ar gyfer dadansoddiad disgwrs Foucaldaidd. Yn yr un modd, ymwrthododd gwaith Foucault â chategoreiddio a phrosesau wedi'u llunio (Ball, 2013, t. 113) a beirniadwyd dadansoddiad disgwrs Foucauldaidd am fod yn annelwig, am fod â diffyg diffiniad clir o strwythur ac o fod â diffyg dull gweithredu penodol o unrhyw fath (Burr, 2015; Garrity, 2010). Yn ystod gwaith Foucault, newidiodd ei ddulliau a'i syniadau i gyd-fynd â'r pwnc (Willig a Rogers, 2017, t. 110), yn union fel y dylai gofynion pob cwestiwn o'r disgwrs arwain at a phennu'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwaith hwn.

Dewiswyd saith adnodd i'w dadansoddi, oll wedi'u cyhoeddi rhwng 2019 a 2021 (gweler tabl 1). Mae dyddiadau cyhoeddi'r darnau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau diweddar sydd ar fin cael eu gweithredu yn y cwricwlwm. Dewiswyd yr adnoddau gan fod pob un ohonynt, mewn rhyw ffordd, yn ddylanwadol neu wedi bod yn ddylanwadol, a hefyd yn rhan o'r gwaith i ffurfio'r cwricwlwm newydd gan Lywodraeth Cymru neu sefydliadau cysylltiedig, neu'n adlewyrchiad ohono. Ar ben hynny, mae gan bob un ohonynt rywbeth i'w ddweud am hunaniaeth genedlaethol, boed yn echblyg neu'n oblygedig. Bydd pob adnodd yn cael ei ddefnyddio gan wahanol randdeiliaid addysgol i lywio a dylanwadu ar sut maent yn dylunio eu cwricwlwm newydd, yn dewis eu deunyddiau neu'n addysgu eu dosbarthiadau. Mae'r adnoddau'n wahanol o ran diwyg – rhai yn fideos hyrwyddo ac eraill yn fwy uniongyrchol eu dylanwad, ar ffurf dogfennau polisi a dogfennau arweiniad. Cafodd testun ei ystyried mewn amryfal ffurfiau i adlewyrchu lluniadau disgyrsiol posibl hunaniaeth y tu hwnt i rai ieithyddiaeth ac iaith. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â natur anghaffaeladwy gwaith o'r fath, defnyddiwyd y feddalwedd dadansoddi ansoddol NVivo i helpu gyda'r gwaith o adnabod a threfnu'r disgyrsiau. Cynhyrchwyd themâu trwy ystyried y naratifau cyffredin ac amlycaf, yn ogystal â'r rhai a oedd yn tynnu'n groes ac yn gwrth-ddweud. Roedd y ffordd y penderfynwyd ar y themâu hyn hefyd yn adlewyrchiad o'r fframwaith dilysrwydd yr oedd yr ymholiad ôl-strwythurol hwn yn bwriadu gweithio o'i gwmpas. Penderfynwyd ar y themâu a nodwyd trwy roi sylw a ffocws i'r enghreifftiau o wrthdaro, diffyg parhad, cymhlethdodau a pharadocsau o fewn yr adnoddau (Lather, 1993, t. 686). Mae defnyddio syniadau o gysyniad dilysrwydd tramgwyddus Lather a lleoli dilysrwydd fel rhywbeth i annog disgwrs (1993, t. 674) yn cynnig dull gweithredu amgen tuag at ddadansoddi a dilysu. Mae hi'n ein hannog i gysyniadu dilysrwydd o'r newydd mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddamcaniaethu ein hymarfer (Lather, 1993, t. 674). Nod dilysrwydd o dan fframwaith

**Tabl 1: adnoddau a ddadansoddwyd**

| *Teitl yr Adnodd* | *Dyddiad Cyhoeddi* | *Fformat* | *Cynhyrchwyd gan* |
|---|---|---|---|
| *1 – Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Rhan o cynllunio eich cwricwlwm* | 28/01/20 | Tudalen we | Addysg Cymru |
| *2 – Mae Addysg yng Nghymru yn Newid* | 25/01/2019 | Fideo | Addysg Cymru |
| *3 – Addysgu am natur amlethnig Cymru: taflen sbarduno athrawon* | 01/08/20 | Tudalen we | Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd |
| *4 Adroddiad terfynol – Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd* | 19/03/21 | Adroddiad Terfynol | Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd |
| *5 – Adroddiad Addysgu Hanes Cymru* | 11/19 | Adroddiad Canfyddiadau | Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| *6 – Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* | 01/20 | Dogfen ganllaw'r cwricwlwm | Addysg Cymru |
| *7 – 'Bil Cwricwlwm ac Asesu'* | 10/03/21 | Fideo | Addysg Cymru |

o'r fath yw llacio cod meistr positifiaeth sy'n parhau i reoli a siapio gwaith ôl-bositifiaeth hyd heddiw. Yn hyn o beth, roedd y prosiect presennol yn osgoi chwilio am, a chyfrif, themâu cyson a blaenllaw yn unig, gan yn hytrach ddefnyddio epistemoleg ac ontoleg Foucauldaidd i bennu'r ffordd y dadansoddwyd y gwaith. Er bod gan bob un o bedwar ffrâm Lather rywbeth i'w gynnig i'r gwaith hwn, defnyddiodd y papur hwn ffrâm dilysrwydd pararesymegol fel ei brif fframwaith. Gan osgoi atebion llinellol a syml, trefnwyd themâu yn ôl gwahaniaethau a heterogenedd.

O'r dadansoddiad hwn, daeth pedair disgwrs i'r amlwg i'w hasesu. Yna, defnyddiodd y gwaith presennol ganllawiau Willig (2008) tuag at ddadansoddiad disgwrs Foucauldaidd, gan gymhwyso'r chwe cham i bob disgwrs. Mae'r chwe cham hyn yn ein hannog i edrych ar y disgyrsiau (1) a chwestiynu eu lluniad (2) yn ogystal â'r gwahaniaethau sydd ynddynt (3). Yna gofynnir i ni ystyried beth sy'n cael ei ennill o'u creu (4), y safleoedd pwnc sy'n cael eu caniatáu ganddynt (5), ac, yn olaf, y posibiliadau ar gyfer y safleoedd hyn (6). Nid oedd y gwaith presennol yn mynd ati'n benodol i archwilio pob un o'r chwe cham ar wahân, gan ei bod hi'n anodd eu gwahanu weithiau; dylid ystyried cyfuno'r camau hyn fel adlewyrchiad o'r paradeim ymchwil y mae'r papur hwn yn gweithio ynddo.

## *Canfyddiadau a Thrafodaethau*

### *Hunaniaethau fel pethau amrywiol*

Mae un o'r disgyrsiau mwyaf cyffredinol a phenodol yn y modd y cafodd ei ysgrifennu ynghylch hunaniaeth yn lleoli hunaniaethau fel pethau amrywiol. Mae hunaniaeth yn ei chyfanrwydd, nid yn unig o ran hunaniaeth genedlaethol, wedi'i llunio'n ddisgyrsiol yn y ffordd hon ymhob adnodd a ddadansoddwyd drwyddi draw. Mae'r enghraifft amlycaf yn datgan: 'Dylai dealltwriaeth dysgwyr o Gymru hefyd gydnabod y ffordd y mae safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau yn siapio Cymru, yn hytrach na chyflwyno darlun nodweddiadol o hunaniaeth Gymreig unffurf.' (Addysg Cymru, 2020). Mae'r math hwn o luniad disgyrsiol hefyd i'w weld mewn negeseuon fel "Nid yw amrywiaeth [ethnig] yn fygythiad i Gymru, ond yn hytrach, yn rhan o'i chymeriad hanesyddol. Mae deall hynny yn hanfodol i hunaniaeth dysgwyr" (Williams *et al.*, 2021, t. 20). I'r un perwyl â Grossberg, sy'n honni bod hunaniaethau'n cael eu creu o dameidiau rhannol (1996, t. 9), mewn sawl agwedd ar yr adnoddau, gallwn weld cydnabyddiaeth o

luosogrwydd o hunaniaethau ac amrywiaeth a gwahaniaeth oddi mewn iddynt a rhyngddynt. O roi'r ddisgwrs hon ar waith o fewn fframwaith Willig, mae'r syniad o hunaniaeth fel rhywbeth amrywiol yn cael ei gynnig gan yr adnoddau ar dair lefel: hunaniaeth unigol, amrywiaeth mewn cymunedau lleol ac ysgolion, ac, yn olaf, ar lefel genedlaethol. Yn gyntaf, ar lefel hunaniaeth unigol, mae nifer o achosion lle mae'r adnoddau'n trafod y potensial i unigolion feddu ar elfennau lluosog ac amrywiol i'w hunaniaethau. Mae canllawiau'r cwricwlwm yn cydnabod bod angen i ddysgwyr fod â "hyder yn eu hunaniaeth" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 30). Mae'r lluosogrwydd mewn 'hunaniaethau' yn dangos bod y cwricwlwm yn cydnabod bod mwy na dim ond un hunaniaeth gan unigolion, ond eu bod hefyd yn meddu ar y potensial i fod â llawer o elfennau neu agweddau o fewn eu hunaniaeth. Yn ail, ar lefel ysgol a chymuned, mae cydnabyddiaeth ehangach o amrywiaeth a lluosogrwydd hunaniaethau o fewn a rhwng ysgolion a chymunedau, gan ofyn i ddysgwyr "ddod i ddeall natur gymhleth, lluosog ac amrywiol cymdeithasau" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 103). Yn olaf, ar lefel facro, mae hunaniaeth yn cael ei gynnig ar lefel genedlaethol neu hyd yn oed ar lefel fyd-eang. Ar lefel genedlaethol, anogir dysgwyr i werthfawrogi bod cael dealltwriaeth o Gymru hefyd yn golygu "...cydnabod y ffordd y mae safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau yn siapio Cymru, yn hytrach na chyflwyno darlun nodweddiadol o hunaniaeth Gymreig unffurf" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 45). Er fymryn yn wahanol o ran golwg, mae'r tair lefel a'r enghreifftiau o luniad disgyrsiol yn cynnig posibilrwydd o hunaniaethau amrywiol a lluosog. Mae'r dewis o 'lefel' neu fath o amrywiaeth yn newid, yn dibynnu ar gynulleidfa a phwrpas pob adnodd sydd o dan ystyriaeth. Efallai y byddwn yn ystyried bod gan bob testun reswm posibl dros ddatgan y dylai lluniad dysgwyr o amrywiaeth hunaniaeth ddigwydd mewn ffordd benodol. Mae'n ddiddorol nodi bod y dogfennau polisi, y canllawiau a'r adroddiadau mwyaf swyddogol yn mynd i'r afael ag amrywiaeth yn llawer mwy amlwg, gan ddibynnu mwy ar y tair lefel o lunio amrywiaeth yn eu hysgrifennu.

Yma, mae'n addas cofio haeriad Willig (2008) y dylid ystyried lluniadau disgyrsiol mewn ffordd echblyg a goblygedig, ond mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar syniadau am amrywiaeth sydd wedi eu hepgor; yma, dygir hunaniaeth genedlaethol i'n sylw. Er bod y cwricwlwm yn cynnig lefelau amrywiol o amrywiaeth i'r rhan fwyaf o agweddau ar hunaniaeth, wrth ystyried hunaniaeth genedlaethol, mae'n cyflwyno hunaniaeth o'r fath yn gryf fel rhywbeth unffurf a homogenaidd, heb fawr o amrywiaeth amlwg. O fewn dogfennau ffurfiol, ceir enghreifftiau lluosog o

amrywiaeth mewn hunaniaethau, yn arbennig "rhyw, rhywedd, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb" (Llywodraeth Cymru, 2020). Nid yw'r agwedd y mae'r erthygl hon yn canolbwyntio'n arbennig arni, sef yr agwedd genedlaethol, yn derbyn unrhyw sôn amlwg am wahaniaeth ar wahân i'r sylw am hunaniaeth genedlaethol Gymreig. Yn nodedig, nid oes sôn ychwaith am hunaniaeth Brydeinig nac Ewropeaidd yn unman o fewn yr adnoddau sy'n cael eu hystyried, gan nodi rhywfaint o wrthdaro efallai, neu ragdybiaethau, y mae'r cwricwlwm yn ei wneud ynghylch hunaniaethau cenedlaethol yng Nghymru. I wlad sydd yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ac a oedd tan yn ddiweddar yn rhannu ei chwricwlwm â Lloegr, efallai bod y diffyg sylw i hyn efallai'n lluniad o'r hunan mewn perthynas â'r arall. Drwy hepgor hyn, gellid fformiwleiddio lluniad o hunaniaeth genedlaethol sydd yn unrhyw beth heblaw Saesneg/ Prydeinig/Ewropeaidd/arall. Dim ond un enghraifft yw hyn, wrth gwrs; gallai, ac mae, cydymddibyniaethau cenedligrwydd lluosog hefyd yn wir am hunaniaethau dysgwyr yng Nghymru, sydd wedi'u pennu'n 'arall' yn sgil hepgoriad yn lluniad disgyrsiol y cwricwlwm newydd. Diddorol yw ystyried pam nad yw creu'r cwricwlwm yn cynnig y math hwn o amrywiaeth yn ei luniad. Mae'r cyfryw amrywiaeth nid yn unig yn cael ei hepgor, ond hefyd, mewn gwrthgyferbyniad, mae sôn pendant dro ar ôl tro am hunaniaeth genedlaethol Gymreig drwyddi draw. Mae naratif 'cenhadaeth ein cenedl' newydd tuag at ddiwygio addysg yn lleoli Cymru fel lle sy'n ailddyfeisio'i thaith addysgol, gyda phwyslais cryf ar y ffaith ei bod yn daith annibynnol, genedlaethol Gymreig. Er bod dogfennau swyddogol yn tueddu i roi cynrychiolaethau homogenaidd, unffurf ac ystrydebol o hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru o'r neilltu, mae llai o'r gosod o'r neilltu hwn i'w weld mewn adnoddau hysbysebu a marchnata, fel fideos. Yn hytrach, cawn gynnig delwedd fwy unigol, ac ystrydebol efallai, o hunaniaeth genedlaethol. Yn fwyaf amlwg, yn y fideo *Mae Addysg yng Nghymru yn Newid*, mae'r llais yn cyfeirio at y gynulleidfa fel 'Tîm Cymru', gydag ysgolion wedi eu lleoli 'lle crëwyd Cymru'. Mae'r sylwebaeth yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r genedl yn ei chyfanrwydd, ac yn cyflwyno ac yn dibynnu ar ddelweddau ystrydebol a hanfodol o hunaniaeth, megis cymoedd, baneri Cymru, cennin Pedr, stadia rygbi a phyllau glo (Addysg Cymru, 2019). Er bod y fideo yn cynnig sawl enghraifft o amrywiaeth o ran hil, rhywedd, ac oedran, nid yw'n dangos unrhyw arwydd o hunaniaeth genedlaethol amrywiol, wedi'i hatgyfnerthu gan syniad homogenaidd cryf o hunaniaeth genedlaethol Gymreig. Mae'r archwiliad hwn yn

cyfrannu at ateb trydydd cwestiwn Willig ynglŷn â pham mae hunaniaeth yn cael ei lunio fel hyn. Mae'r cwricwlwm eisiau, neu o leiaf eisiau ymddangos, fel pe bai'n derbyn hunaniaethau amrywiol a lluosog, ond mae hefyd fel pe bai eisiau meddu ar hunaniaeth Gymreig genedlaethol gref. Efallai nad yw cymhlethdod cenhedloedd niferus yn cyd-fynd â chenhadaeth bresennol ein cenedl, ac mae Cymru'n dymuno edrych mor unedig â phosibl yn ei datblygiad, gan gadw'n glir o ddelweddau a allai 'fygwth' yr unffurfiaeth. Drwy rethreg genedlaethol, ochr yn ochr â hepgor hunaniaethau cenedlaethol eraill, mae'r cwricwlwm yn creu hunaniaeth genedlaethol unffurf er mwyn bodloni ei nod *cenedlaethol*.

Mae'r cyfyng-gyngor hwn, o ystyried pumed a chweched cam Willig, yn taflu goleuni ar y posibiliadau a'r canlyniadau i ddysgwyr. Er bod y cwricwlwm yn cynnig hunaniaethau amrywiol mewn rhai ffyrdd, gallwn ddechrau gweld ei fod hefyd yn cynnwys rhwystrau i amrywiaeth a lluosogrwydd, megis hunaniaeth genedlaethol, fel y gwelir uchod. Yn olaf, wrth gwrs, er bod delwedd amrywiol o hunaniaeth yn cael ei llunio, mae prif naratif cenedlaethol Cymreig amlwg a chyffredinol. Gallai'r naratif cyffredinol hwn fod yn arbennig o ynysig i unrhyw un sy'n teimlo nad yw ei hunaniaeth yn cydweddu â hunaniaeth Gymreig o'r fath. Yn hyn o beth, trwy gynnig lluniad cyffredinol o hunaniaeth genedlaethol, mae'r cwricwlwm yn cyflwyno hierarchaeth oblygedig o hunaniaethau cenedlaethol. Boed yn fwriadol ai peidio, mae Skey (2011, 2014) yn nodi sut mae hierarchaethau o berthyn yn llwyddo wrth ddeall sut mae rhai pobl, yn fwy nag eraill, yn dod i deimlo eu bod yn perthyn i genhedloedd. Gallai llunio disgwrs genedlaethol mor gryf arwain at ynysu a'r ymdeimlad o fod yn 'arall' i'r rhai nad ydynt yn 'gweld' eu hunain o fewn y ffrâm hon, yn ddisgyrsiol neu fel arall.

### *Hunaniaethau fel pethau newidiol*

Yr ail ddisgwrs ar hunaniaeth a oedd yn cael ffocws o fewn y saith adnodd oedd lluniad disgyrsiol hunaniaeth fel peth newidiol. Cawn gynnig delwedd o hunaniaeth fel rhywbeth newidiol sy'n newid ac yn hydrin dros gyfnod o amser, yn enwedig cyfnod person ifanc yn yr ysgol, pan ddaw i gysylltiad â'r cwricwlwm. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys dweud mai'r ysgol yw lle y "crëwyd" Cymru (Addysg Cymru, 2019), a disgrifio addysgu hanes a diwylliant fel "hanfodol os... am *feithrin* hunaniaeth Gymreig" (Sayed, 2019, t. 6, fy mhwyslais i). Mae hyn yn rhoi'r argraff i ni nad yw unigolion yn cael eu geni gyda'u hunaniaeth genedlaethol, ond ei

bod yn hytrach yn cael ei llunio a'i chreu trwy ddod i gysylltiad â digwyddiadau penodol a mathau penodol o wybodaeth.

Mae Weedon (2004, t. 19) yn honni mai'r ffordd orau i unigolyn ddeall hunaniaeth yw fel gosodiad dros dro a chyfyngedig o fodd arbennig o oddrychedd sy'n rhoi'r argraff mai dyna yw rhywun. O fewn y ddisgwrs newidiol hon, mae enghreifftiau hefyd o elfen amseryddol i'w hystyried, sy'n dechrau ateb yr ail gwestiwn a holir gan Willig. Mae hunaniaethau'n derbyn y potensial i newid dros amser wrth ddod i gysylltiad â'r cwricwlwm. Gwelir enghreifftiau o'r ddisgwrs hon yn yr haeriadau mai'r ysgol yw "lle crëwyd Cymru" a "ble y dysgwn pwy y gallwn fod" (Addysg Cymru, 2019). Mae dysgwyr yn derbyn y potensial i 'dderbyn', dysgu, newid, addasu a chanfod eu hunaniaeth genedlaethol o fewn y cwricwlwm a'r ysgol. Mae modd edrych ar ffurfiau gwahanol yr elfen newidiol hon fel syniadau ynghylch bod yn ddinesydd, dysgu am hunaniaeth, neu ymdeimlad o berthyn o fewn eu hamgylchedd. Mewn rhai testunau, gwelwn bwyslais cryfach ar yr hunaniaethau newidiol hyn, e.e. lle mae newid hunaniaeth neu ganfyddiad o hunaniaeth yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hiliaeth, anoddefgarwch ac anghydraddoldeb. Yma, mae'r syniad y gallwn newid ymdeimlad pobl o'u hunaniaeth a'u credoau eu hunain am hunaniaeth trwy ddod i gysylltiad â'r cwricwlwm yn gryfach. Mae'r papur hwn yn edrych ar yr elfen hon eto yn y ddisgwrs derfynol ar hunaniaeth fel rhywbeth strategol. Mae caniatáu i hunaniaeth gael ei lunio fel hyn yn gwneud y cwricwlwm yn rhan weithredol o lunio hunaniaeth y dysgwyr. Mae'n rhoi galluogedd i'r cwricwlwm newid neu addasu hunaniaethau unigolion. Wrth wrthbrofi natur statig, sefydlog neu hanfodol greiddiol hunaniaeth ac annog syniad o sefyllfa newidiol ac addasadwy yn lle hynny, gall y cwricwlwm siapio a mowldio hunaniaeth. Fel y nodwyd gan Bauman (1996), mae modd mabwysiadu hunaniaethau a'u diosg fel newid gwisg mewn byd o'r fath (t. 23). Mewn lleoliad o'r fath, gallwn ystyried y cwricwlwm fel cwpwrdd dillad sy'n hwyluso a theilwra hunaniaethau posibl i gyd-fynd â'r tymheredd neu'r tymor.

Mewn testunau niferus, gwelwn gryn bwys yn cael ei roi ar ba wybodaeth a chynnwys a fydd yn cael eu haddysgu i ddysgwyr o fewn y cwricwlwm newydd - yn arbennig, yr hyn sy'n cael ei addysgu yn y dyniaethau. Mae yna naratif cryf yn bodoli sy'n haeru bod hanes yn adnodd sy'n cael ei ddefnyddio i lywio, mowldio a siapio hunaniaethau a pherthynas â hunaniaeth genedlaethol (Williams *et al.*, 2021; Sayed, 2019). Mae'r naratif yn ystyried hanes fel elfen bwysig wrth ddysgu pwy ydym ni, gan ddatgan hefyd ei fod yn helpu i ffurfio ein hunaniaethau cenedlaethol a'n

hymdeimlad o berthyn. Mewn un ddogfen gwelwn y datganiad canlynol: "mae addysgu hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm yn hanfodol os... am feithrin hunaniaeth Gymreig" (Sayed, 2019, t. 6). Mae pryder y bydd dysgwyr yn ei chael hi'n fwy nag anodd i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hunaniaeth genedlaethol, eu treftadaeth a'u synnwyr o berthyn heb hanes y mae modd iddynt uniaethu ag ef. Wrth gwrs, y cwestiwn nesaf sy'n codi yn sgil hynny yw 'pa wybodaeth a hanes a ddewisir i'w haddysgu?' Os yw hunaniaeth yn cael ei lunio fel rhywbeth sy'n newid yn gyflym, mae'r dylanwadau ar hunaniaeth mor newidiol yn hynod bwysig.

Er bod ysgolion yn rhydd i benderfynu ar gynnwys a gwybodaeth eu cwricwlwm, mae cryn bwyslais ar hanes Cymru o fewn y themâu trawsgwricwlaidd, ac felly mae'n anodd osgoi addysgu o'r fath. Mae dadlau gwleidyddol o hyd ynghylch a ddylai hanes Cymru fod yn elfen orfodol ai peidio, gyda Phlaid Cymru, y blaid genedlaethol, yn arbennig o bryderus y byddai'n cael ei cholli. Mae'n ddiddorol bod pleidiau gwleidyddol yn gweld hanes fel un o'r elfennau pwysig ar gyfer datblygu hunaniaeth genedlaethol o fewn y cwricwlwm newydd. Yn yr un modd, mae pryderon niferus yn cael eu lleisio yn yr adnoddau ynglŷn â diffyg addysgu hanesion amrywiol a lleiafrifol, yn ogystal â phryderon ynghylch pwy a fydd yn eu haddysgu a'r hyfforddiant a'r profiad angenrheidiol i wneud hynny'n dda (Williams *et al.*, 2021; Sayed, 2019). Mae dewis y 'wybodaeth gywir' ar gyfer y 'lleoliad cywir' yn ymddangos yn bwysicach nag erioed o ran diogelu, caniatáu ac annog lluniadau o hunaniaeth genedlaethol a pherthyn i ddysgwyr o bob cefndir a hunaniaeth genedlaethol.

Yn ymarferol, mae'r ddisgwrs hon yn ei gwneud hi'n bosibl i'r cwricwlwm ddylanwadu ar hunaniaeth genedlaethol rhywun trwy ddefnyddio adnoddau fel addysgu hanes. Mae potensial i'r ddisgwrs roi grym i'r cwricwlwm lunio neu ffafrio gwybodaeth a hanesion penodol, a hynny yn ei dro yn ffafrio rhai agweddau ar hunaniaeth a photensial ar gyfer perthyn. Yn bwysig, mae'n rhaid i ni gofio bod perthyn yn cael ei gyflyru gan ein cyrff a'u lleoliad yn y byd (Carrillo Rowe, 2008, t. 43), sy'n golygu nad yw pob math o berthyn yn bosibl, gan nad yw pobl yn rhydd i ddewis eu ffyrdd o berthyn y tu hwnt i ffiniau grym (Carrillo Rowe, 2008, t. 43). Unwaith eto, mae'n rhaid cofio bod y fraint hon yn llawer mwy hygyrch i rai, gyda'r broses yn fwy cymhleth a heriol i eraill, os yw ar gael o gwbl. Nid yw cynnig y wybodaeth 'gywir' yn arwain yn awtomatig at ymdeimlad o berthyn. Wrth ystyried cwestiwn olaf Willig am ganlyniadau, mae'r ddisgwrs hon yn gwrthod y syniad o hunaniaeth sefydlog ac yn caniatáu i bob dysgwr allu addasu, a meddu ar y potensial, o dan y

Cwricwlwm i Gymru, i deimlo ymdeimlad o berthyn yng Nghymru. O ystyried syniadau May ar berthyn fel cysyniad dynamig a pherthnasol, rhwng yr hunan a'r gymdeithas (May, 2011), gwelwn sut beth yw perthyn o ran hunaniaeth a'r wybodaeth dderbyniedig y mae cymdeithas yn ei chynhyrchu. O ran perthyn, mae'r ddisgwrs hon yn cynnig y potensial i berthyn fel proses yn hytrach na chyflwr 'naturiol' o fodolaeth (Antonsich, 2010, t. 652). Ar y llaw arall, er bod yr elfen newidiol hon yn esgor ar botensial, gallwn weld sut mae ffactorau eraill, megis gwybodaeth, hanes a chynnwys, yn gallu dylanwadu a ffafrio rhai hunaniaethau a phosibiliadau ar gyfer perthyn.

*Hunaniaethau fel pethau gofodol*

Ar draws y saith adnodd, mae hunaniaeth o fewn y cwricwlwm yn cael ei adlewyrchu fel rhywbeth sydd â lluniad gofodol. Mae'r ddisgwrs hon yn arbennig o berthnasol o ran hunaniaeth genedlaethol, gan fod hunaniaeth yn aml yn cael ei llunio'n ddisgyrsiol ar sail gofod, tir neu ddaearyddiaeth. Mae Grossberg (1996) yn gwneud y pwynt bod rhesymeg byrhoedledd yn aml yn cael ei ffafrio neu'n freintiedig o ran syniadau ynghlwm wrth hunaniaeth, ond dylem hefyd ystyried rhesymeg gofodoldeb o ran hunaniaeth. Mae lluniad y ddisgwrs hon yn amrywio rhwng 'gofodau', gydag ysgolion, cymunedau lleol, siroedd, gwledydd, cenhedloedd a'r byd yn enghreifftiau o ofodau o'r fath. Yr amlycaf o'r rhain yw'r berthynas â'r gofod cenedlaethol, h.y. Cymru a daearyddiaeth a thirwedd Cymru. Mewn ambell destun penodol, rydym yn gweld pwyslais cryf ar hunaniaeth sy'n cael ei llunio o fewn tirwedd Gymreig. Er enghraifft, yn y fideo *Mae Addysg yng Nghymru yn Newid*, ceir delweddau cryf yn darlunio cymoedd a phentrefi bach arfordirol (2019). Mae'r araith hefyd yn adlewyrchu'r dirwedd hon, wrth sôn am "y bythynnod a'r tai, y pentrefi a'r trefi, y strydoedd a'r cymunedau, dyma ein tir cyffredin" (Addysg Cymru, 2019). Efallai mai dyma un o'r enghreifftiau mwy amlwg o gysylltu gofod cenedlaethol â hunaniaeth. Yn y ddisgwrs ofodol, mae'r weledigaeth o dir cyffredin yn ymestyn y tu hwnt i ofod cyffredin corfforol ac yn symud i ddealltwriaeth gyffredin drosiadol. Drwy'r ddisgwrs hon, mae naratif bod amodau a thirweddau'r gofodau hyn yn effeithio ar ein hunaniaeth, neu fod ganddynt, hyd yn oed, hanfod dirgel a rhamantus sy'n siapio ein hunaniaeth a'n gallu i berthyn. Yn y delweddau hyn, gallwn ddechrau gweld hanfodaeth mewn hunaniaeth genedlaethol o'r fath. Cawn ein hatgoffa eto o Brubaker a Cooper (2000, tt. 19–20) yn trafod y

genedl fel rhywbeth sy'n darparu ffin ffisegol a syniadau am ofod homogenaidd ar gyfer unigolion. Mae lleoli hunaniaeth mewn gofod ffisegol braidd yn gyfleus, gan ychwanegu at ymdeimlad o falchder cenedlaethol a pherthyn corfforol i Gymru. Mae'r ddelweddaeth hon a'r ddibyniaeth ar ofod cenedlaethol yn cysylltu hunaniaethau â'r wlad yn gorfforol, efallai gan hyrwyddo cysylltiad â Chymru, a theyrngarwch i Gymru fel gofod daearyddol. Unwaith eto, gallwn weld sut mae'r ddisgwrs hon yn rhyngweithio'n helaeth â rhai blaenorol, gan adleisio'r teimlad ynghylch diffyg hunaniaeth genedlaethol amrywiol yn y ddisgwrs gyntaf. Gellir ei weld hefyd, yn yr hunaniaeth derfynol o ddisgwrs fel rhywbeth strategol, fel rhywbeth sy'n ategu a rhyngweithio â chysylltiad strategol â'r wlad, a theyrngarwch iddi.

Mae llawer mwy o ddibyniaeth ar y gofodau a'r daearyddiaethau cynhenid a hanfodol hyn o fewn yr adnoddau gweledol a ddadansoddwyd. Fel y soniwyd uchod, rydym yn gweld delweddau o dirluniau a phensaernïaeth. Er bod y ddelweddaeth ofodol ramantus hon yn cael ei chynnig ar ei chryfaf yn y fideos, cynigir syniad tebyg yn y testunau ffurfiol. Mae'r lluniad hwn yn cael ei gyflwyno ar ei gryfaf yn yr adnoddau ysgrifenedig trwy thema cynefin.[2] Mae canllawiau'r cwricwlwm newydd wedi penderfynu defnyddio'r gair cynefin i ddynodi thema drawsgwricwlaidd y cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r canllawiau yn datgan y dylid annog dysgwyr i "[d]datblygu ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw" (Addysg Cymru, 2020) Mae'n bosibl cyfieithu cynefin, fel enw, i 'habitat', ond mae eraill wedi dadlau nad oes ganddo gyfieithiad uniongyrchol na chyfatebol yn Saesneg a bod ganddo ystyr mwy neu ehangach na hyn (Snowden, 2011). Mae Sinclair yn dadlau na ddylid ei ystyried yn derm gwyddonol, a'i fod yn hytrach yn disgrifio perthynas: lleoliad eich geni a'ch magwraeth, yr amgylchedd sy'n gartref i chi a'r lle sy'n teimlo'n gartrefol i chi (1998). Mae'r cwricwlwm newydd yn diffinio cynefin fel y "man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod" (Addysg Cymru, 2020). Mae cynefin yn cyflwyno dadleuon uniongyrchol a diddorol yn ymwneud â disgwrs ofodol o fewn y cwricwlwm. Mae ystyried ystyron niferus y gair yn gallu arwain at wahanol ddehongliadau o hunaniaeth a pherthyn yn y cwricwlwm newydd. O ystyried cynefin fel enw, yna mae cynefin yn statig ac mae

ganddo berthynas ffisegol â'r dysgwr. Fel yr awgrymir yn y diffiniad uchod, gall cynefin gynnwys tirwedd ffisegol a theimladau diriaethol o flas a chyffyrddiad. Mae ystyried cynefin fel enw sy'n golygu 'habitat', ac yn sgil hynny yr amgylchedd naturiol sy'n gartref i anifail neu blanhigyn fel arfer (Cambridge Dictionary, 2022), yn awgrymu bod gan ddysgwyr yng Nghymru, o dan y cwricwlwm newydd, gynefin naturiol lle bydd rhai amodau penodol yn galluogi dysgwyr i ffynnu. Mae'r ddelweddaeth hon yn awgrymu amgylchedd statig a sefydlog, lle na fydd organebau'n goroesi os na allant ymaddasu i'r amgylchedd hwnnw. Yn yr agwedd hon ar gynefin, mae'r cynefin yn sefydlog ac nid yw o reidrwydd yn addasu i gefnogi'r dysgwyr. O ran pedwerydd cam Willig, mae'n gosod hunaniaeth y dysgwyr fel rhywbeth sy'n ddibynnol ar ofod a thrwy ddibynnu ar ddelweddau a geiriau o Gymru, mae'n ymddangos bod y gofod hwn yn cael ei annog fel gofod Cymreig ei ddaearyddiaeth neu ei dirwedd. Os na all dysgwyr weld eu hunain o fewn y gofod, hinsawdd neu dirwedd, neu os nad ydynt yn cael cysur o'r blasau a'r arogleuon y maent yn eu profi, efallai y byddant yn teimlo nad ydynt yn perthyn i'r cynefin arbennig hwn. Mae hyd yn oed defnyddio term Cymraeg mewn testun Saesneg fel arall yn awgrymu mai'r canlyniad sy'n ddisgwyliedig neu y gobeithir amdano yw cynefin sy'n fwy addas i ofod neu ddaearyddiaeth Gymreig. Mae'n ddiddorol meddwl hefyd fod y dehongliad hwn o gynefin i raddau'n gwrth-ddweud, ac nad yw'n cydweddu, â disgyrsiau newidiol ac amrywiol am hunaniaeth, fel yr archwiliwyd eisoes. Yn yr un modd, mae Trudeau (2006, t. 423) yn awgrymu bod perthyn yn gynhenid ofodol a bod tirweddau yn cynnwys ystyron o allgáu a chynnwys i berthyn. Gallai'r hyblygrwydd a'r rhyddid yn y cwricwlwm newydd hwn i ysgolion ddewis beth maent yn ei addysgu fod yn broblemus wrth ystyried dehongliad hanfodol posibl cynefin yn y ffordd hon. Mae annog ysgolion i ganolbwyntio ar eu hanes a'u demograffeg lleol yn esgor ar y posibilrwydd y bydd syniadau o gynefin yn cael eu dilyn, a bod potensial i syniadau o'r fath allgau a dieithrio rhai. Dywed Newton y bydd datganoli'r cwricwlwm a gwneud addysg yn fwy 'lleol', trwy fynnu perchnogaeth leol, yn gwella ymatebolrwydd ysgolion i anghenion lleol a chenedlaethol (2020, t. 215), ond y gallai gwneud hynny hefyd arwain at orddefnyddio'r lleol a'r cenedlaethol, a gorddibyniaeth arnynt. Gall hyn yn ei dro arwain at ffafrio syniadau'r gysyniadaeth wreiddiol o gynefin ac atodi gofod i hunaniaethau, a hynny ar draul caniatáu i amrywiaeth neu wahaniaeth gael eu gweld a'u harchwilio gan bob ysgol a chymuned. Rwy'n rhannu'r pryder hwn gydag adroddiad terfynol 2021 (Williams

*et al.*, 2021, t. 10), y "gall y dehongliad o 'cynefin' fel un o gysyniadau craidd y cwricwlwm newydd fod yn gyfyngol ac yn waharddol os bydd yn ymwneud ag ardaloedd lleol a demograffi lleol yn unig".

Ar y llaw arall, cawn ein hannog i ystyried cynefin fel perthynas drosiadol yn hytrach nag ymlyniad ffisegol 'naturiol' i ofod. Mae'r dehongliad hwn yn gwrthbrofi disgwrs ofodol hanfodol, heb fod o reidrwydd yn atodi lle i hunaniaeth a pherthyn. O fewn perthynas adeiledig, gallwn ystyried bod cynefin yn addasadwy a lluosog, yn hytrach na chaeth i ofod ac amser. Mae'r farn hon yn rhoi dysgwyr mewn sefyllfa unigol wahanol. Nid yn unig y mae potensial i anghenion dysgwyr gael eu bodloni gan un hinsawdd neu dirwedd, ond mae hefyd y potensial i greu perthynas gyda sawl 'ffurf' ar gynefin. Nid yw hyn ychwaith yn tybio mai daearyddiaeth leol neu genedlaethol yw cynefin dysgwr; yn wir, gallai fod yn deimlad gyda phobl, lle neu amser. Efallai ei bod yn bwysig hefyd i beidio ag ystyried y syniadau hyn o gynefin fel dehongliadau cwbl ar wahân, ond fel continwwm gyda dehongliadau niferus ac amrywiol yn bosibl. Gellir creu cyswllt yma gyda nodyn atgoffa Massey bod modd cysyniadu lleoedd fel prosesau hefyd (1991, t. 275). Gall perthynas a symudiad fodoli mewn lle cyfyngedig, sydd i raddau'n dwyn y ddau ddehongliad o'r ddisgwrs ofodol hon ynghyd.

Mae modd ymgorffori'r ddisgwrs ofodol hon mewn dau begwn, ond heb eu nodi ar yr eithafion bob tro, wrth gwrs. Mae'r cyntaf yn arwain at agwedd sefydlog ac unigryw ar berthyn, a'r ail at elfen newidiol a welwyd yn y ddisgwrs flaenorol. Gallwn weld fod y potensial ar gyfer perthyn yn edrych yn wahanol, yn dibynnu ar ba ddisgwrs sy'n cael ei ffafrio. Bydd iaith a dealltwriaeth o'r cysyniad o gynefin yn ffurfio safle'r deiliad ac yn cynnig sawl potensial gwahanol. Mae gan un y potensial i groesawu a chaniatáu perthyn i bawb, ac mae gan y llall nodweddion dieithrio, megis safbwyntiau tiriogaethol a hanfodol o berthyn.

### *Hunaniaethau fel pethau strategol*

Cyffyrddwyd ar hyn mewn disgyrsiau eraill, ond mae modd lleoli hunaniaeth o fewn yr adnoddau fel strategaeth, wedi'i hadeiladu a'i haddasu ar gyfer budd, nodau ac amcanion unigol a chymdeithasol. Mae'r ddisgwrs hon yn cynnig defnydd i hunaniaeth genedlaethol ac yn dangos disgwrs o sut y gall y cwricwlwm lunio a defnyddio hunaniaethau penodol fel elfen unigol a chymdeithasol werthfawr. O ystyried ysgolion fel lleoliadau ar gyfer dylanwadu ar agendâu cymdeithasol sy'n cystadlu, gallwn weld sut

mae'n bosibl defnyddio trafodaethau ynghylch hunaniaeth fel strategaeth i gyflawni'r agendâu hyn.

Mae enghreifftiau o wahaniaethau yn y ddisgwrs hon yn cael eu llunio lle mae 'hunaniaeth ddelfrydol', a 'diben' hynny, yn cael ei dychmygu ar y pryd. Perthyn ar lefel bersonol yw'r ffordd gyntaf y llunnir y ddisgwrs hon. Ar lefel ficro, defnyddir hunaniaeth fel cysyniad allweddol o ran perthyn unigol a'r hunan. Er enghraifft, ysgrifennwyd y geiriau hyn: "Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 103). Mae'r cwricwlwm yn llunio creu hunaniaeth ac yn hyrwyddo ymdeimlad clir o hunaniaeth fel rhywbeth buddiol a strategol ddefnyddiol i'r unigolyn. Yn ail, mae modd edrych ar y lluniad hwn fel rhywbeth strategol ar gyfer nodau cymdeithasol a chymunedol hunaniaethau. Caiff naratif ei greu y bydd ymdeimlad cryf a dealltwriaeth gref o hunaniaeth yn arwain at gysyniadau megis balchder cenedlaethol, cydlyniant cymdeithasol, cyflawniad cenedlaethol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau (Williams *et al.*, 2021). Mae lluniad y cwricwlwm yn creu hunaniaeth genedlaethol fel arf strategol; awgrymir bod dealltwriaeth dysgwyr o'u hunaniaethau eu hunain yn gallu "siapio'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw", tra'n gwneud iddynt sylweddoli hefyd eu bod yn gallu cael "effaith sylweddol ar gymdeithas, boed yn ddewisiadau unigol neu ar y cyd" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 103). Yn olaf, ar lefel facro, mae elfen fyd-eang ehangach i'r ddisgwrs strategol hon hefyd. Awgrymir y gall dysgu am hunaniaeth ac ymdeimlad cryf o'r hunan helpu dysgwyr i "feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach" (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 104). Cynigir y syniad y gall hunaniaeth genedlaethol fod yn strategol wrth sicrhau dinasyddiaeth fyd-eang gadarnhaol, ac mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu'r pwysigrwydd bod dysgwyr yn meddu ar hunaniaethau a chyfrifoldebau sy'n arwain at y nodau hyn.

Mae'n ddefnyddiol i'r cwricwlwm lunio hunaniaethau fel hyn, gan ei fod yn caniatáu i ddysgwyr ryngweithio â'u hunaniaethau a dod o hyd i atebion o fewn eu hunain i'r cwestiynau sy'n wynebu cymdeithasau byd-eang. Mae hefyd yn rhoi pwrpas i ddatblygu'r cyfryw ffocws ar hunaniaeth genedlaethol yn y cwricwlwm. Gan roi ateb tebyg i'r hyn a gafwyd ar gyfer yr ail ddisgwrs ar hunaniaeth newidiol, mae'r ddisgwrs hon yn pennu hunaniaeth fel rhywbeth sy'n cael ei lunio mewn ffordd newidiol. Os gellir defnyddio hunaniaeth i fodloni nodau, mae'n awgrymu bod ffyrdd ar gael

i ni allu addasu hunaniaethau a chanfyddiadau o hunaniaethau er mwyn cyflawni'r nodau hynny. Mewn rhai ffyrdd, mae hyn yn gwrthbrofi'r agwedd gynhenid ar hunaniaeth ac yn hytrach yn dibynnu ar amodau a chymdeithasau i'w ffurfio a'u llunio. Mae hyn yn rhoi dysgwyr yn y sefyllfa o allu addasu eu hunaniaethau i oresgyn a mynd i'r afael â materion personol, lleol a byd-eang, os yw hynny'n fwriad gan yr unigolyn ai peidio. Yn ymarferol, mae'n rhoi pwysigrwydd ar hunaniaeth a chreu hunaniaeth, trwy'r cwricwlwm. Mae hyn yn golygu y gall y cwricwlwm ddefnyddio hunaniaethau dysgwyr fel adnoddau sy'n cynnig budd strategol, ac y gall y cwricwlwm bennu fersiwn arbennig o hunaniaeth i adlewyrchu anghenion yr unigolyn, y fro, y genedl neu'r byd. Mae edrych ar hunaniaeth o fewn disgwrs strategol yn caniatáu i ni weld creu hunaniaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at nodau neu fuddion gwleidyddol, cenedlaethol neu gymdeithasol posibl; mae modd mowldio hunaniaethau unigolion a'u haddasu fel eu bod yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion hyn. Mae rhai elfennau tebyg rhwng y ddisgwrs hon a gwaith arloesol Anderson (1983). Mae ymdeimlad o undeb i'w gael mewn cymuned genedlaethol, neu gymuned wleidyddol ddychmygol fel y cyfeiriodd yntau ati (Anderson, 1983, t. 5). Er na fydd pob person yng Nghymru yn adnabod nac yn cyfarfod â'i gilydd, mae delwedd o'u cymun yn bodoli (Anderson, 1983, t. 6) neu gymuned ddychmygol, mewn geiriau eraill. Mae lluniad o'r fath yn caniatáu i aelodau sy'n teimlo'n rhan o gymuned o'r fath i deimlo ac ymddwyn fel pe bai cymrodoriaeth rhwng pob aelod o'r genedl, gan greu teyrngarwch a chysylltiad.

Yn olaf, mae canlyniadau disgwrs o'r fath yn tynnu'r cyfrifoldeb oddi wrth yr unigolyn ac yn ei drosglwyddo i'r cwricwlwm a'r llywodraeth wrth lunio a chaniatáu i hunaniaethau berthyn, neu beidio. Unwaith eto, mae hyn yn ein hatgoffa o'r pwysigrwydd o feddwl yn ofalus am yr hyn y gall cwricwlwm ei 'wneud' mewn cymdeithas ac i bwy. Trwy wneud hunaniaethau cenedlaethol yn bwnc gwleidyddol, mae canlyniadau'r ddisgwrs hon yn golygu bod modd llunio a dyfarnu hunaniaethau er budd strategol. Gallwn weld sut y gall hunaniaeth genedlaethol Gymreig a'r ymdeimlad o berthyn gael eu seyfdlogi a'u harneisio at ddibenion penodol. Yn hyn o beth, mae modd edrych ar ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth genedlaethol fel cynnyrch cymdeithas yn hytrach nag ymdrech bersonol. Er bod y ddisgwrs hon yn dileu ymreolaeth unigol dros hunaniaeth a pherthyn, y mae, fodd bynnag, i ryw raddau yn gwrthod barn hanfodaeth ar hunaniaeth, oherwydd mae'n bosibl edrych ar y cwricwlwm fel rhywbeth sy'n gallu addasu a newid lluniad hunaniaeth a pherthyn unigolion.

*Casgliadau*

Drwy ddadansoddiad disgwrs Foucauldaidd, mae'r gwaith hwn wedi canfod ac archwilio pedair disgwrs amlwg o hunaniaeth genedlaethol wrth ffurfio'r cwricwlwm newydd. Mae'r disgyrsiau hyn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, yn ystyried hunaniaeth fel rhywbeth amrywiol; newidiol; gofodol; a strategol. Gwelwyd sut mae gwahanol agweddau tuag at ddisgyrsiau ar hunaniaeth yn cynnig safbwynt unigol gwahanol i ddysgwyr a photensial gwahanol ar gyfer ymgorffori ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol a pherthyn. Ystyriodd yr erthygl berthyn, neu'r gallu i berthyn, fel y gallu i fod yn destun rheoleiddio gan lunio hunaniaeth genedlaethol wedi'i chreu yn ddisgyrsiol gan y cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn yn rhagdybio bod gan y cwricwlwm newydd y potensial i gynnwys ac adlewyrchu hunaniaethau niferus a'r potensial i berthyn, ond ei fod hefyd yn cynnwys elfennau a allai ddieithrio, fel y thema cynefin, a allai greu rhwystrau i hunaniaeth genedlaethol a pherthyn, lle mae materion fel dieithrio ac ynysu wedi cael eu crybwyll fel pryderon. Daw'r gwaith hwn i ddeall elfennau cymhleth hunaniaeth a pherthyn; yn wir, fel y mae Crowley (1999, t. 22) yn nodi, mae perthyn a hunaniaeth yn gysyniadau 'trwchus' y mae'n rhaid cydnabod eu natur gymhleth a chroestoriadol yn barhaus. Yn sicr, gellid gwneud mwy o waith yn y maes hwn i fynd i'r afael â'r fath gymhlethdod.

Mae hyn yn codi'r cwestiwn, felly, ynghylch pa newidiadau ymarferol neu awgrymiadau y gellir eu gwneud i fynd i'r afael â'r dasg wleidyddol hon a newid cwrs y disgyrsiau hyn er mwyn caniatáu i hunaniaethau a pherthyn ddatblygu ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Wrth sôn am ymdriniaeth Foucault ag 'awgrymiadau', neu ei agwedd at ganllawiau, mae Flyvbjerg (1998, t. 224) yn disgrifio Foucault fel rhywun nad yw am ragnodi sut y dylai unigolion neu sefydliadau feddwl neu sicrhau newid, ond yn hytrach fel rhywun sy'n argymell ffocws ar wrthdaro a pherthnasoedd grym fel y pwynt mwyaf effeithiol i ddechrau brwydro yn erbyn goruchafiaeth (t. 224). Nid unig fwriad, na phwrpas uniongyrchol, y papur hwn oedd cynnig awgrymiadau ymarferol o'r fath, ond o feddwl yn debyg i Foucault, mae'r awgrymiadau y gall y gwaith hwn eu gwneud wedi'u hanelu'n fwy at annog y math o ymholi sy'n amlygu meddylfryd o'r fath wrth gynllunio'r cwricwlwm ac addysgu. Mae'r prosiect presennol wedi cwestiynu cysyniadau sy'n bodoli eisoes ac sydd weithiau'n cael eu cymryd yn ganiataol, gan arwain at ddileu gweithdrefnau disgyrsiol confensiynol (Lather, 1993, t. 686). Mae peidio â thybio neu dderbyn 'gwirioneddau'

sy'n cael eu cymryd yn ganiataol, chwilio am yr hyb sydd wedi'i hepgor i'r un graddau â'r hyn sydd yno, a chydnabod blerwch a gwrth-ddweud i gyd yn elfennau y mae modd eu datblygu i hyrwyddo'r ffordd hon o feddwl wrth greu a chynllunio'r cwricwlwm yn y dyfodol. Awgrymaf y dylid defnyddio'r conglfeini hyn yn benodol wrth feddwl am, ac ystyried, addysgu, cynnwys y cwricwlwm, cynrychiolaeth ac yn enwedig y dasg o fynd i'r afael â'r cysyniad o gynefin mewn ysgolion.

Mae Williams hefyd yn rhannu pryder ynghylch y term cynefin, gan nodi "mae'n peri pryder hefyd y gallai'r cysyniad hwn annog dehongliad o berthyn sy'n gysylltiedig â gwreiddiau yn hytrach na llwybrau at ddinasyddiaeth Gymreig" (2021, t. 54). Yn yr un cywair y mae'r gwaith hwn wedi ceisio mynd i'r afael â'r berthynas rhwng y cwricwlwm a hunaniaeth genedlaethol, gan daflu goleuni ar gysyniadau sydd, fel y mae Williams yn gywir i'w ddatgan, yn "esgor ar syniadau o ni a nhw, lleol ac estron, lle yr ystyrir bod honiadau rhai yn fwy dilys nag eraill" (2021, t. 54). Drwy ddadansoddi syniadau fel hyn, y gobaith yw y gallwn ddechrau gweld sut mae syniadau fel hunaniaeth genedlaethol sydd weithiau'n cael eu cymryd yn ganiataol, a'u lluniadau disgyrsiol, yn gallu dieithrio a rhannu yn ogystal ag uno. Mae angen ymdrin â'r syniadau a'r sgyrsiau hyn yn ofalus, yn ystyriol a chan dalu sylw i bob arlliw. Gall agweddau taclus, clir eu diffiniad, tuag at hunaniaeth genedlaethol a pherthyn arwain at ddieithrio ac ynysu, gan wrth-ddweud nodau cynhwysol y cwricwlwm newydd. Mae'r rhyddid a fydd gan ysgolion i ddiffinio eu cwricwlwm a'i gynnwys yn gyfle gwych i hyn ddigwydd; dylai ffyrdd o feddwl o'r fath gael eu dilyn nid yn unig gan lunwyr polisïau, ond gan ysgolion a'r myfyrwyr eu hunain hefyd. Mae hunaniaeth a pherthyn yn ddau syniad sydd â'r potensial i gael eu hail-ddiffinio a'u harchwilio yn y cwricwlwm newydd, ond er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen ymgysylltu beirniadol am bolisi gydag ysgolion.

## *Nodiadau*

1 Y Cwricwlwm Cymreig: Gofyniad statudol penodol Gymreig y cwricwlwm blaenorol a'r ethos mewn ysgolion i "helpu disgyblion i ddeall a dathlu ansawdd penodol byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain, i nodi eu hymdeimlad hwy eu hunain o Gymreictod ac i wir deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned leol a'u gwlad" (ACCAC, 2003, t. 2).

2 Cynefin: 'Habitat' o'i gyfieithu'n uniongyrchol i'r Saesneg, ond mae diffiniad y cwricwlwm yn cael ei ystyried, yn benodol "dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod" (Addysg Cymru, 2020).

## *Cyfeiriadau*

Addysg Cymru. (2019) *Mae Addysg yng Nghymru yn Newid* [fideo YouTube]. Adalwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=6FsrD_tJqW4 (dolen Gymraeg)

Addysg Cymru. (2020). Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Rhan o: Cynllunio eich cwricwlwm. Adalwyd o https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm

Addysg Cymru. (2021, Mawrth, 10) *Bil Cwricwlwm ac Asesu*. [Ffeil fideo]. Adalwyd o https://www.youtube.com/watch?v=1Fb_zJdh38Q&t=39s

Anderson, B. (1983). *Imagined communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism*. Verso.

Antonsich, M., (2010). Searching for Belonging – An Analytical Framework. *Geography compass*, 4(6), tt. 644–659.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). (2003) *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig,* gw. https://hwb.gov.wales/api/storage/9fd16056-c6b1-4489-bb23-d7a9b610fe8b/datblygu-r-cwricwlwm-cymreig.pdf

Ball, S. J. (2013). *Foucault, power, and education Stephen J. Ball.* New York: Routledge,

Bauman, Z. (1996). From pilgrim to tourist—or a short history of identity. Yn S. Hall a P. Du Gay (goln), *Questions of cultural identity* (tt. 18–36). Sage Publications, Inc.

Brubaker, R., Cooper, F. (2000) Beyond identity. *Theory and Society* 29 (1): 1–47.

Brubaker, R. (2010) Migration, Membership, and the Modern Nation-State: Internal and External Dimensions of the Politics of Belonging. *Journal of Interdisciplinary History* 41 (1): 61–78. doi:doi:10.1162/jinh.2010.41.1.61. http://www.mitpressjournals.org/ doi/abs/10.1162/jinh.2010.41.1.61.

Burr, V. (2015). *Social constructionism*. Routledge.

Calhoun, C. (2003) Belonging in the Cosmopolitan Imaginary. *Ethnicities* 3 (4): 531–553. doi:10.1177/1468796803003004005. http://etn.sagepub.com/cgi/content/short/3/4/ 531.

Cambridge Dictionary (2022a) Habitat, diffiniad, adalwyd o: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/habitat

Carrillo Rowe, A. (2008). Be Longing: Toward a Feminist Politics of Relation. Yn *Power Lines* 25-46. New York, USA: Duke University Press.

Crowley, J. (1999). The politics of belonging: some theoretical considerations. Yn Geddes, A. a Favell, A. (goln) *The politics of Belonging: Migrants and Minorities in Contemporary Europe*. Aldershot: Ashgate 15-41

Daugherty, R. a Jones, S. (1999), Community, culture and identity: geography, the National Curriculum and Wales. The Curriculum Journal, 10: 443-461. https://doi.org/10.1080/0958517990100308

Eaude, T. (2020) *Identity, Culture and Belonging: Educating Young Children for a Changing World*. London: Bloomsbury Academic, 2020. doi: http://dx.doi.org/10.5040/9781350097834.0004>.

Flyvbjerg, B. (1998) Habermas a Foucault: Thinkers for Civil Society? *The British Journal of Sociology* , Mehefin, 1998, 49(2) 210-233 doi: 10.2139/ssrn.2237923

Foucault, M. (1972). The Archaeology of Knowledge and the Discourse on Language. New York, NY: Pantheon

Foucault, M. (1982). The Subject and Power. *Critical Inquiry*, *8*(4), 777–795. JSTOR.

Garrity, Z. (2010). Discourse analysis, Foucault and social work research. *Journal of Social Work*, *10*(2), 193–210.

Geddes, A., Favell, A. (1998) *Introduction. In The politics of belonging: migrants and minorities in contemporary Europe*, golygwyd gan Andrew Geddes ac Adrian Favell, 10–14. Aldershot: Ashgate.

Grossberg, L. (1996). *Identity and cultural studies: is that all there is?* yn *Questions of cultural identity* (S. Hall a P. Du Gay, goln). 87-107. Sage. doi: https://www.doi.org/10.4135/9781446221907.n6

Hall, S. (1996). Introduction: who needs 'identity'?. Yn S. Hall, a P. du Gay (goln), *Questions of cultural identity* 1-17. SAGE Publications Ltd, https://www.doi.org/10.4135/9781446221907.n1

Kurzwelly, J., Fernana, H,. a Ngum, M. E. (2020) The allure of essentialism and extremist ideologies, *Anthropology Southern Africa*, 43(2), 107-118, doi: 10.1080/23323256.2020.1759435

Laclau, E. (1990) *New Reflections on the Revolution of Our Time,* London: Verso.

Lather, P. (1993). Fertile Obsession: Validity after Poststructuralism. *The Sociological Quarterly, 34*(4), 673-693. Adalwyd o http://www.jstor.org/stable/4121374

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Adalwyd o: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

Massey, D. (1991). The Political Place of Locality Studies. *Environment and Planning A: Economy and Space*, *23*(2), 267–281. https://doi.org/10.1068/a230267

May, V. *et al.* (2020) 'Introduction: Nationalism's Futures', Sociology, 54(6), tt. 1055–1071. doi: 10.1177/0038038520969316.

May, V., (2011). Self, Belonging and Social Change. *Sociology (Oxford)*, 45(3), tt. 363–378.

McGrattan C, a Williams, S,. (2017) Devolution and identity: Multidirectionality in 'Welshness' and 'Northern Irishness', *Regional & Federal Studies*, 27(4), 465-482, doi: 10.1080/13597566.2017.1355787

Mercer, K. (1990) Welcome to the Jungle: Identity and Diversity in Postmodern Politics, yn J. Rutherford (gol.) *Identity, Community, Culture, Difference*, tt. 43 – 71. London: Lawrence and Wishart.

Morley, D a Robins, K. (1989) ''Spaces of Identity: Communications Technologies and the Reconfiguration of Europe.'' Screen 30, 10–34.

Newton, N. (2020), The rationale for subsidiarity as a principle applied within curriculum reform and its unintended consequences. The Curriculum Journal, 31: 215-230. https://doi.org/10.1002/curj.37

Ott, B. L. (2003), "I'm Bart Simpson, who the hell are you?" A Study in Postmodern Identity (Re)Construction. *The Journal of Popular Culture*, 37: 56-82. doi: https://doi.org/10.1111/1540-5931.00054

Sayed, B (2019) *Adroddiad Addysgu Hanes Cymru,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Adalwyd o https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12870/cr-ld12870%20-w.pdf

Sinclair, N. (1998) *The Land & the Sea,* Williams, K. Gomer Press.

Skey, M. (2011). *National belonging and everyday life*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Skey, M. (2014). *How Do You Think I Feel? It's My Country: Belonging, Entitlement and the Politics of Immigration.* The Political Quarterly 85 (3): 326–332. issn: 1467-923X. doi:10.1111/1467- 923x.12094. http://dx.doi.org/10.1111/1467-923x.12094.

Smith, K (2015) Learning Welshness: does the curriculum Cymreig positively affect pupils' orientations to Wales and Welshness? Education, Citizenship and Social Justice 10(3), tt. 199-216

Smith, K. (2016). Curriculum, culture and citizenship education in Wales: investigations into the curriculum Cymreig. Palgrave Studies in Global Citizenship Education and Democracy. London Palgrave McMillan

Snowden, D. (2011) Cynefin, A Sense of Time and Place: an Ecological Approach to Sense Making and Learning in Formal and Informal Communities, https://www.researchgate.net/publication/264884267_Cynefin_A_Sense_of_Time_and_Place_an_Ecological_Approach_to_Sense_Making_and_Learning_in_Formal_and_Informal_Communities

Trudeau, D. (2006). Politics of belonging in the construction of landscapes: place-making, boundary-drawing and exclusion. *Cultural Geographies* 13, 421–443.

Weedon, C. (2004). *Identity and Culture: Narratives of Difference and Belonging.* United Kingdom: McGraw-Hill Education.

Williams, C (2020) *Addysgu am natur amlethnig Cymru: taflen sbarduno athrawon.* Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a

Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Adalwyd o https://www.llyw.cymru/addysgu-am-natur-amlethnig-cymru-taflen-sbarduno-athrawon

Williams, C (2021) *Adroddiad terfynol*, Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Adalwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf

Williams, K. (2020) *Kirsty Williams – Cwricwlwm i Gymru / Curriculum for Wales*, fideo, adalwyd o YouTube https://www.youtube.com/watch?v=5eUIZcZzNDc

Willig, C. (2008) 'Discourse Analysis' yn Smith, J. A. (gol.) *Qualitative Psychology: a practical guide to research methods,* 2il argraffiad. Sage. tt. 160-187

Willig, C. a Rogers, W. S (2017). Foucauldian Discourse Analysis. Yn *The SAGE Handbook of Qualitative Research in Psychology*. 55 City Road: SAGE Publications Ltd, tt. 110-123.

Yuval-Davis, N., (2006).Belonging and the politics of belonging. *Patterns of prejudice*, 40(3), tt. 197–214.

Zilliacus, H., Paulsrud, B. A. a Holm, G., (2017). Essentializing vs. non-essentializing students' cultural identities: curricular discourses in Finland and Sweden. *Journal of multicultural discourses*, 12(2), tt. 166–180.